

Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynol Athrawon yng Nghymru – Argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru

	Argymhelliad	Prif randdeiliaid	Ymateb
1.	Yr Adran Addysg a Sgiliau i benodi uwch-gynghorydd gyda chyfrifoldeb penodol dros HCA, a fydd yn chwarae rhan allweddol drwy arwain ar gyngor polisi a chodi safonau HCA ymhlith yr holl ddarparwyr.	Llywodraeth Cymru	Cytuno – byddai hyn yn atgyfnerthu arweiniad strategol y sector HCA ac yn gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth HCA ledled Cymru. Bydd gan y cynghorydd arbenigol brofiad ym maes hyfforddi a datblygu athrawon ac yn sicrhau ffocws ac ysgogiad, i hwyluso gwelliant ar draws holl argymhellion yr adroddiad. Cyhoeddir manylion pellach yn fuan.
2.	Estyn a CCAUC i gydweithredu'n fwy clòs yn dilyn arolygiad, er mwyn sicrhau ymrwymiad cryfach gan ddarparwyr HCA, a'r Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cydweithredu â nhw, i newidiadau a fydd yn cryfhau arweiniad lleol ac ansawdd pob canolfan HCA yn gyflym. (cysylltu â meincnod 12)	Estyn, CCAUC a chanolfannau HCA	Cytuno – bydd yr uwch-gynghorydd arfaethedig yn mynd ati i annog mwy o gydweithredu o fewn timau arwain y Canolfannau HCA, gan fod yn gyfrwng i newid a chryfhau a meithrin y gallu i wella ansawdd a safonau HCA. Ceisio sicrhau gwelliannau yn dilyn adroddiadau arolygu diweddar Estyn lle barnwyd bod angen gwella arweiniad drwy annog mwy o gydweithredu rhwng pawb sy'n gysylltiedig ac adeiladu ar y trefniadau sydd eisoes ar waith. Yn amodol ar ymgynghoriad llawn, byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno newidiadau i'r Meini Prawf Achredu statudol i'w gwneud hi'n ofynnol i bob darparwr HCA gael ei ail-achredu'n rheolaidd ac ystyried cyflwyno

			<p>gofynion penodol a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ganolfannau HCA gyhoeddi cynlluniau gweithredu yn dilyn adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig o fewn amserlen benodol.</p> <p>Byddwn yn disgwyl i Estyn barhau i gynnal ymweliadau monitro blynyddol ac unrhyw ymweliadau ôl-arolygu yn ôl y gofyn ac i ystyried cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar ei wefan.</p>
3.	Yr Adran Addysg a Sgiliau a CCAUC i drafod cynlluniau wrth gefn ar gyfer ailddyrranu niferoedd hyfforddeion mewn achosion o dangyflawni parhaus, naill ai mewn Canolfannau HCA unigol neu gan y sector yn ei gyfanrwydd.	Llywodraeth Cymru, CCAUC	<p>Cytuno mewn egwyddor - Byddwn yn annog CCAUC a'r Canolfannau HCA i ystyried canolbwyntio eu darpariaeth yn fwy strategol, yn enwedig er mwyn gwneud cyrsiau'n hyfyw, gan sicrhau bod staff priodol yn cael eu defnyddio i gyflwyno cyrsiau.</p> <p>Byddwn yn ystyried gyda CCAUC pa gamau y dylid eu cymryd i ailddyrranu niferoedd derbyn HCA os na chyflawnir yr argymhellion gwella, neu os yw perfformiad yn parhau i fod yn anfoddhaol. Byddwn yn ystyried ein dull o weithredu yn fwy manwl ar ôl i Estyn gwblhau ei arolygiadau o'r tair Canolfan HCA.</p>
4	<p>Darparwyr HCA i adolygu eu modelau hyfforddi a'u modelau addysgu, i wneud yn siŵr bod hyfforddeion yn derbyn canllawiau eglur a chyson ynglŷn â sut y dylent drefnu addysgu a dysgu yn eu pwnc (neu bynciau) a'u cyfnod(au).</p> <p>(cysylltu â meincnod 10)</p>	Canolfannau HCA	<p>Cytuno – bydd yr uwch-gynghorydd arfaethedig yn hwyluso newid er mwyn mynd i'r afael â gwendidau yn y meysydd hyn ac yn gweithio gyda Chanolfannau HCA i ddarparu canllawiau a chymorth gyda'u hadolygiadau o'r modelau hyfforddi a ddefnyddiant a rhannu arferion gorau, gan annog y sector i ystyried arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o'r ysgolion.</p>

5.	Sefydliu rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Hyfforddi – yn seiliedig ar argymhellion darparwyr gan ddechrau â nifer fach o ysgolion hynod ymroddedig – er mwyn cydnabod yr ysgolion hynny sydd eisoes yn chwarae rhan fawr yn HCA a chreu rhwydwaith y gall gwneuthurwyr polisi a darparwyr allu ymgynghori a chydweithredu ag ef mewn perthynas â gwella arferion yn yr ysgolion.	Llywodraeth Cymru, Canolfannau HCA	Cytuno mewn egwyddor – sail resymegol a phwrpas i'w pennu'n fanylach drwy drafod â'r sector dan arweiniad yr uwch-gynghorydd. Mae angen gwaith pellach i gytuno sut y câi Ysgolion Hyfforddi eu pennu a chostau posibl gweithredu'r cynllun. Byddwn hefyd yn annog y Canolfannau HCA i gynnal arolygon gyda phob un o'u hysgolion partneriaeth a chyhoeddi canfyddiadau yn cynnwys enghreifftiau o arferion gorau ar eu gwefannau. Bydd Canolfannau HCA yn cydnabod ysgolion partneriaeth rhagorol.
6.	Canolfannau HCA i ystyried penodiadau ar y cyd mewn pynciau â blaenoriaeth a mabwysiadu dulliau rheoli perfformiad cyffredin ar gyfer eu holl staff er mwyn gosod safonau uchel a sicrhau bod pob tiwtor yn cael ei arfarnu'n flynyddol er mwyn pennu ei gryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella, ac yn cael ei gefnogi'n ddiwyd yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun. (cysylltu â meincnod 6)	Canolfannau HCA	Cytuno mewn egwyddor – yr uwch-gynghorydd arfaethedig i weithio gyda Chanolfannau HCA, gan ystyried annibyniaeth sefydliadol, i sicrhau cytundeb i'w weithredu, cefnogi trefniadau gweithio ar y cyd a rhannu arferion da.
7.	Yn yr adolygiad a gynlluniwyd o'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, bod y safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC), ar gyfer y cyfnod ymsefydlu a gwneud cynnydd yn ystod y tair i bum mlynedd gyntaf o addysgu yn cael eu drafftio a'u halinio er mwyn darparu llwybr clir ar gyfer cynnydd gyrfaoel cynnar athrawon. (cysylltu â meincnod 7)	Llywodraeth Cymru a'r sector addysg	Cytuno – bydd y gwaith o werthuso effeithiolrwydd y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith newydd yn cynnwys adolygiad o'r safonau SAC ynghyd â safonau eraill.
8.	Canolfannau HCA i roi camau ar waith ar frys i gryfhau ymgysylltiad ag ymchwil ymhlith tiwtoriaid a hyfforddeion fel bod addysgu a hyfforddiant athrawon yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ddulliau ymchwilio ymarferol a	Canolfannau HCA a Sefydliadau Addysg Uwch	Cytuno - mae'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol newydd yn canolbwyntio'n helaeth ar y dull hwn. Gallai'r uwch-gynghorydd arfaethedig a swyddogion sy'n arwain ar y

	<p>gwyddonol.</p> <p>(cysylltu â meincnod 8)</p>		<p>Radd Meistr weithio mewn partneriaeth â'r sector i wneud y newid hwn yn rhan annatod o'r HCA.</p> <p>Bydd gofyn i Ganolfannau HCA ddatblygu gallu ymchwil a gwybodaeth gan ddefnyddio'r arbenigedd perthnasol sydd i'w weld o fewn adrannau'r sefydliadau. Hefyd, caiff cyfleoedd i ymgysylltu â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru eu hannog er mwyn mynd i'r afael â'r modd yr ymdrinnir â materion yn ymwneud â gallu ymchwil.</p>
<p>9.</p>	<p>Llywodraeth Cymru i fynd ati'n fwy diwyd i hyrwyddo dysgu fel dewis gyrfa ar gyfer y graddedigion gorau oll a'r rhai sy'n newid gyrfa, gan sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yng Nghymru, ac yn rhoi camau ar waith lle bynnag y bo modd i wella llwybr gyrfa unigolion sy'n perfformio'n ardderchog.</p> <p>(cysylltu â meincnod 9)</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Cytuno – tan 2012 yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion ar y pryd oedd yn recriwtio a marchnata ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyd. Byddwn yn ystyried y dulliau marchnata mwyaf effeithiol gan ddefnyddio arbenigedd marchnata mewnol a ffynonellau allanol i godi ansawdd ymgeiswyr HCA. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysgu ar hyn o bryd yn cael eu denu i'r proffesiwn er mwyn sicrhau bod athrawon yn adlewyrchu cymunedau lleol.</p> <p>Nid yw Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn fater a ddatganolwyd i Gymru felly ceir rhai cyfyngiadau penodol, ond rydym wedi datblygu a chyflwyno trefniadau rheoli perfformiad cadarn fel rhan o'r broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu ehangach ar gyfer athrawon wrth eu</p>

			gwaith ac arweinwyr y dyfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r rhan hon o'r argymhelliaid drwy sicrhau bod profiadau datblygu proffesiynol priodol ar gael.
10.	Cadw cymhellion hyfforddiant athrawon fel mesur hyblyg y gellir ei addasu'n flynyddol i annog ymgeiswyr o'r radd flaenaf mewn meysydd o angen penodol. (cysylltu â meincnod 9)	Llywodraeth Cymru	Cytuno - ar hyn o bryd, rydym yn targedu cymhellion at ymgeiswyr sy'n bwriadu addysgu'r pynciau hynny y mae recriwtio ar eu cyfer yn flaenoriaeth a'r rhai sydd â'r graddau gorau. Byddwn yn ystyried ein dull o weithredu yn seiliedig ar y dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd y cymhellion presennol a chyfyngiadau cyfredol y gyllideb.
11.	Llywodraeth Cymru i gyfleu'r neges syml ac uniongyrchol i ysgolion fod cysylltiad parhaus â HCA yn ddisgwyliad ar gyfer pob ysgol dda a phob ysgol sy'n anelu i fod yn dda. (cysylltu â meincnod 12)	Llywodraeth Cymru, Canolfannau HCA, Estyn	Cytuno – rydym yn cytuno y dylid annog ysgolion i fod yn rhan o'r ddarpariaeth HCA a byddwn yn mynd ati'n ddiwyd i bwysleisio'r neges hon. Byddwn yn trafod gydag Estyn sut y gallwn adeiladu ar y farn a ffurfir ynglŷn â gwaith partneriaeth wrth arolygu ysgol i godi safonau er mwyn helpu i nodi a lledaenu arferion gorau.
12	Llywodraeth Cymru i bwysleisio'r neges i ysgolion ei bod yn disgwyl iddynt fod â systemau ac arferion datblygu proffesiynol cryf ar waith sy'n peri i athrawon fynd ati o ddifrif ac yn effeithiol i ddatblygu eu sgiliau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac wrth arolygu ysgolion, bod Estyn yn archwilio'n fwy beirniadol sut y mae ysgolion yn rhoi mesurau uniongyrchol ar waith i wella ansawdd a sgiliau athrawon. (cysylltu â meincnodau 4, 11 a 12)	Llywodraeth Cymru	Cytuno - Rydym eisoes wedi cyflwyno trefniadau Ymarfer, Adolygu a Datblygu sy'n darparu system integredig o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol i gynorthwyo athrawon i wella eu hymarfer. Mae argymhellion ar y gweill hefyd i sicrhau bod cynlluniau datblygu staff yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu ysgolion.

			Mae Estyn eisoes wedi cryfhau canllawiau arolygu ysgolion i gynnwys gwerthusiad o ddatblygiad proffesiynol. Byddwn yn trafod gydag Estyn sut y gallai'r pecynnau hunanarfarnu gyfeirio at y trefniadau Ymarfer, Adolygu a Datblygu a rhaglenni datblygu arweinwyr eraill fel y bo'n briodol.
13	Cynnal cylch rheolaidd o arolygiadau HCA, gyda disgwyliadau uwch o ran cyhoeddi cynlluniau gweithredu a chyflwyno mesurau i unioni gwendidau. (cysylltu â meincnod 12)	Estyn	Cytuno – Mae hyn yn rhan o fframwaith arolygu newydd Estyn. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro ar wahân i'r ymweliadau arolygu ffurfiol. Bydd yr uwch-gynghorydd yn cynnig cymorth i ddarparwyr ddatblygu a gweithredu eu cynlluniau gweithredu.
14	Canolfannau HCA i gydweithredu drwy Gyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon Cymru a gyda rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi'r data perfformiad allweddol y gallant ei rannu, er mwyn darparu meincnodau ledled Cymru a all helpu i olrhain cynnydd hyfforddeion a datgelu cryfderau a gwendidau cymharol o ran darpariaeth ysgolion a'r Ganolfan HCA. (cysylltu â meincnodau 12, 13 a 14)	Pawb	Cytuno – bydd yr uwch-gynghorydd yn symud y gwaith hwn yn ei flaen mewn cydweithrediad â'r sector HCA ehangach fel y bo'n briodol.
15.	Canolfannau HCA i rannu eu cynlluniau gwella a chytuno ar fesurau a fydd yn eu helpu, yn unigol ac ar y cyd, i osod disgwyliadau uwch ar gyfer datblygu darpariaeth HCA fwy safonol a chyson yng Nghymru. (cysylltu â meincnod 13)	Canolfannau HCA	Cytuno – bydd yr uwch-gynghorydd yn ymwneud â hwyluso'r broses o rannu arferion gorau rhwng y Canolfannau HCA ac annog gwaith partneriaeth, wedi'i gefnogi gan systemau hunanarfarnu effeithiol, ledled Cymru.

Noder: Mae'r cyfeiriadau at ddarparwyr HCA yn yr adroddiad yn sôn yn bennaf am y tair Canolfan HCA ranbarthol a dylid ystyried yr argymhellion yn unol â hynny. Mae'r Brifysgol Agored hefyd yn cynnig cyrsiau HCA i raddedigion yng Nghymru a bydd rhai o'r argymhellion hyn yr un mor gymwys i'r darparwr hwnnw a darparwyr y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, fel y bo'n briodol.